**Gwasanaeth Gwybodaeth a Chofrestr Anomaleddau Cynhenid Cymru (CARIS)**

Mae Ymddiriedolaeth MSA yn rhannu data gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Chofrestr Anomaleddau Cynhenid Cymru (CARIS), sy'n rhan o Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae CARIS yn casglu gwybodaeth i nodi faint o bobl yng Nghymru sydd â chlefyd prin a natur eu nodweddion.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda thîm CARIS ers 2025. Mae CARIS yn cofnodi'r bobl sydd ag anomaleddau cynhenid a chlefydau prin ledled Cymru. Ar gyfer clefydau prin, mae CARIS yn casglu ychydig bach o wybodaeth am bob person a'i ddiagnosis. Yna gellir cysylltu hyn â setiau data eraill, fel y rhai sy'n cofnodi presgripsiynu a gweithgarwch ysbytai.

Er mwyn sicrhau bod y data cofrestru cenedlaethol mor gyflawn â phosibl ar gyfer pob clefyd prin, mae CARIS yn casglu data o lawer o ffynonellau data. Gall cofrestrau cleifion, fel yr un a ddarperir gan Ymddiriedolaeth MSA, chwarae rhan bwysig wrth roi cyfle i bobl wneud yn siŵr bod CARIS yn eu cynnwys.

Dyna pam, pan fydd pobl yn cofrestru i fod yn rhan o gymuned Ymddiriedolaeth MSA, gallant hefyd ddewis rhannu eu data â CARIS (pobl sy'n byw yng Nghymru yn unig).

Drwy rannu ein data gyda CARIS ein nod yw deall MSA yn well. Gall y data helpu clinigwyr, ymchwilwyr ac elusennau i roi gwell cefnogaeth i'r rhai sy'n byw gyda'r cyflwr.

Defnyddir y gofrestr CARIS genedlaethol hefyd ar gyfer ymchwil a chynllunio drwy helpu i wneud y canlynol:

- edrych ar niferoedd a thueddiadau pobl sydd wedi cael diagnosis o anomaleddau cynhenid a chlefydau prin
- gwella iechyd, gofal a gwasanaethau i bobl â'r cyflyrau hyn
- cefnogi cleifion trwy ddarparu gwybodaeth am eu cyflwr
- rhoi gwybodaeth i'r GIG i'w helpu i wella y gwasanaethau y mae'n eu darparu ymhellach.

Er mwyn diogelu eich cyfrinachedd, mae rheolaethau llym ar waith ynghylch pwy all weld yr wybodaeth sydd gan CARIS. Ni fydd CARIS byth yn cyhoeddi dim byd a fyddai'n golygu y gallai rhywun eich adnabod

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am CARIS, ewch i'w gwefan yma – https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwasanaeth-gwybodaeth-a-chofrestr-anomaleddau-cynhenid-cymru-caris/.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn dymuno i CARIS gael eich gwybodaeth, cysylltwch â ni a byddwn yn hapus i'ch cynorthwyo. Gallwch optio allan ar unrhyw adeg.